

Angen maddeuant yn ddyddiol

“Yna tywalltodd ddŵr i’r badell, a dechreuodd olchi traed y disgyblion, a’u sychu â’r tywel oedd am ei ganol.” (adn. 5)

Beth am ddarlenn Ioan 13:1–11 ac yna myfyrio

Y rheswm dros aros ymhellach gyda’r gwirionedd am gyfiawnhad trwy ffydd yw, yn syml, fod myfyrio arno yn rhoi testunau newydd i ni o hyd i’w mwynhau. Mae cyfiawnhad yn rhywbeth sydd yn digwydd unwaith ac am byth ac yn digwydd mewn amser yn ein bywyd. Cawn ein cyfiawnhau unwaith, ond rhaid i ni gael maddeuant bron bob dydd, a dyma’r hyn a ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion pan ddysgodd hwy i weddio, “A dyro inni heddiw ein bara beunyddiol; a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i’n dyledwyr.” (Math. 6:12) Mae’r darlenniad heddiw yn ein cynorthwyo i ddeall y gwirionedd.

Pan oedd Iesu’n cael pryd o fwyd gyda’i ddisgyblion ar ddiwedd ei weinidogaeth ddaearol, a chyn y pryd, yn cynnig golchi eu traed, yr oedd Pedr ar y cychwyn yn gwrthod caniatáu iddo wneud hynny. “Ni chei di olchi fy nhraed i byth.” (adn.8) Pam y fath wrthwynebiad? Mae’n debyg mai’r gwirionedd yw bod Pedr yn teimlo’n annheilwng iawn o gael ei draed wedi eu golchi gan ei Arglwydd. Rwy’n amau ambell waith nad oedd yn anesmwyth hefyd oherwydd nad oedd ganddo reolaeth ar y sefyllfa. Mae pobl sydd â rheolaeth yn ei chael yn haws i weinidogaethu i eraill, yn hytrach na chael pobl eraill yn gweinidogaethu iddyn nhw. Dywedodd Iesu wrth Pedr, “Os na chaf dy olchi di, nid oes lle iti gyda mi.” (adn. 8) Gofynnodd Pedr i Iesu olchi ei ddwylo a’i draed. Cyfeiriodd Iesu at y ffaith ei bod yn arferol i olchi traed un o’r gwesteion a oedd wedi ymolchi cyn gadael cartref wrth iddo gyrraedd y tŷ, oherwydd dim ond ei draed oedd wedi eu baeddu gan lwch y ffyrdd.

Wrth inni ddod at Iesu Grist a chael ein cyfiawnhau, rydym fel petaem yn derbyn bath ysbrydol i’n glanhau, ond wrth inni gerdded trwy strydoedd llychlyd y byd, rhaid i ni gael ein traed wedi eu golchi yn gyson ganddo ef. Mae angen maddeuant arnom ym mhopeth bron a wnawn.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

2 Cor. 5:17–21; Col. 1:9–14; 1 Ioan 2:1–2

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut allwn honni fod yn gyfiawn?
2. Beth mae prynedigaeith yn ei olygu i ni?

Gweddi

O Dad trugarog a graslon, rwy’n synnu fwyfwy at ryfeddod dy iachawdwriaeth. Rwy’t yn darparu, nid yn unig ar gyfer pechodau fy ngorffennol, ond hefyd at fethiannau fy mhresennol. Caniatâ i’m henaid fynegi ei fawl ddydd ar ôl dydd. Amen.